**Carl Sargeant AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
**Cabinet Secretary for Communities and Children**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-781
Ein cyf/Our ref CS/01367/17

David J Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru
.

11 Hydref 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Medi yn dweud wrthyf am ddeiseb a ddaeth i law'r Pwyllgor gan The Port Talbot Super Prison Protest Group.

Rwy'n cydnabod pa mor gryf yw safbwyntiau'r protestwyr.

Mae carchardai yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw dir yr oedd posib ei ddatblygu. Roedd hyn yn gwestiwn a ofynnwyd drwy Gymru a Lloegr. Rydym yn ymateb i ymholiadau fel hyn gan ddatblygwyr tebygol yn aml, ac felly, dyma roi rhestr o ugain safle posibl iddynt gael eu hystyried.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn penderfynu ar safle i adeiladu carchar a ph'un a ddylid gwneud gwaith pellach ar y safle. Maent yn mynd i wrando ar safbwyntiau'r bobl leol mewn ymgynghoriad deuddydd gyda'r gymuned.
.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Os bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn penderfynu wedi hynny i fwrw ymlaen â chais cynllunio, caiff y cais hwnnw ei ystyried gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot. Yn unol â'r drefn ar gyfer pob cais cynllunio, caiff y preswylwyr gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau gerbron y cynghorwyr yn rhan o'r broses honno.

Yn gywir

**Carl Sargeant AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children